

**Uned Cymorth Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i
Deuluoedd (UCCACD)
Education and Family Support Directorate –
Directorate Support Unit (EDSU)**

Deialu uniongyrchol / Direct line: 01656 642617

Ein cyf / Our ref: EDSU/ LH/HS
Eich cyf / Your ref:

Dyddiad / Date: 5 Chwefror 2021

Annwyl Riant/Gofalwr

Fel y gwyddoch, mae'r awdurdod lleol yn adolygu'n gyson y ddarpariaeth ar safleoedd ysgol i blant gweithwyr hanfodol.

Fel rhan o'r broses hon, rydym wedi cyhoeddi arolwg ar-lein heddiw i rieni/gofalwyr i'n helpu ni i gynnig mwy o gymorth yn yr ysgol yn y dyfodol.

Mae dolen i'r arolwg ar-lein isod:

<https://bit.ly/39NkBmd>

Hoffwn atgoffa rhieni/gofalwyr y bydd yr arolwg yn cau am **hanner dydd, dydd Gwener, 12 Chwefror**.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r arolwg, ar unrhyw gyfrif, yn gwarantu y byddwn yn cynnig lle i'ch plentyn/plant yn y ddarpariaeth ar safle'r ysgol yn y dyfodol.

Er y bydd yr arolwg yn ddienw, bydd y data y byddwn yn eu casglu'n caniatáu i'r awdurdod lleol fesur maint y galw tebygol am ddarpariaeth ar safleoedd ysgol (o ran ysgolion unigol a grwpiau blwyddyn penodol).

Wedyn, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu a oes angen newid polisi o ran y meini prawf cymhwyster ar gyfer gweithwyr hanfodol. Os bydd y meini prawf yn newid, bydd yr ysgol yn anfon llythyr cais i rieni/gofalwyr ddydd Llun 22 Chwefror (hy yn syth ar ôl hanner tymor) er mwyn trefnu darpariaeth ychwanegol o ddydd Llun 1 Mawrth ymlaen.

Rydym yn awyddus i sicrhau bod gennym cymaint o wybodaeth â phosibl cyn gwneud unrhyw benderfyniad. O ystyried hyn, byddwn yn ddiolchgar pe bai'r holl rieni/gofalwyr yn llenwi'r arolwg

Ffôn/Tel: 01656 643643

Facs/Fax: 01656 668126

Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

[Twitter@bridgendCBC](https://twitter.com/bridgendCBC)

Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk

Cyfnwyd testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

(ni ddylai gymryd mwy na 3 munud) i fesur y galw'n effeithiol cyn cynllunio darpariaeth as safleoedd ysgol dros y pedair wythnos nesaf.

Gyda diolch am eich cefnogaeth barhaus

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'L Lindsay Iorwerth Harvey'.

Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)

Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr